
# CYNGOR CYMUNED
# LLANGELYNNIN
# COMMUNITY COUNCIL



## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

**Mis Mai 2025**

# Cynnwys yr Adroddiad


| | | |
|---|---|---|
| | | **Rhif y Dudalen** |
| **Crynodeb Gweithredol / Datganiad y Cadeirydd** | | 3 |
| **1.** | Llangelynnin – Ein Ardal ag Adroddiad Blynyddol y Cyngor Cymuned | 5 |
| **2.** | Cynghorwyr ag Is-Bwyllgorau | 6 |
| | 2.1 Cynghorwyr | |
| | 2.2 Cyfarfodydd yn 2024/25 | |
| | 2.3 Is-Bwyllgorau | |
| **3.** | Manylion Cysylltu a Gwybodaeth | 7 |
| **4.** | Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | 7 |
| **5.** | Ein Cyllid a sut mae'r praesept blynyddol yn cael ei wario | 8 |
| | 5.1 Incwm | |
| | 5.2 Gwariant | |
| | 5.3 Rhoddion | |
| | 5.4 Archwiliad a Chydymffurfiad | |
| **6.** | Gweithgareddau | 10 |
| **7.** | Wedi'w gyflawni | 11 |
| **8.** | Cynghorwyr a etholwyd/chyfetholwyd ers Etholiad Mai 2022 | 13 |

# ADRODDIAD DIWEDD Y FLWYDDYN

## 2024-2025



Unwaith eto dechreuodd y flwyddyn gyda Chyngor llawn, ond ers hynny mae dau aelod wedi ymddiswyddo. Ac o ganlyniad mae'r Cyngor Cymuned yn chwilio am ddau aelod newydd ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwn yn gallu llenwi'r swyddi hyn cyn gynted â phosibl i gefnogi ein cymuned hyd eithaf ein gallu. Mae aelodau'r Cyngor Cymuned wedi bod yn manteisio ar gyrsiau sydd ar gael i helpu gyda'r gwaith, ac yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel aelodau'r cyngor, a chytunwyd hefyd y dylid annog aelodau newydd i gymryd rhan mewn cyrsiau cyflwyno.

Unwaith eto, fe wnaeth pob Cynghorydd ildio eu hawl i'w lwfans blynyddol, ac maent wedi rhoi o'u hamser i helpu'r gymuned gyda phrosiectau fel ailgyfeirio cwrs yr afon unwaith eto, cyfarfod â sefydliadau ynghylch materion yn y pentref, helpu gyda'r râs hwyaid, ac yn enwedig eleni gyda'r Coed Nadolig - nid yn unig yn gorfod torri, casglu a chodi'r goeden yn Llwyngwril ond hefyd diolch i Keith Caroll am adeiladu'r goeden ar gyfer Rhoslefain. Gobeithir nawr y bydd y ddau bentref yn gallu cael coed artiffisial yn y dyfodol, gan olygu nad oes angen torri coeden go iawn.

Yn anffodus eleni, ar ôl llawer o drafod, penderfynwyd codi'r Praesept - gyda chostau cynyddol contractwyr, biliau a chyflogau, nid oedd gennym ddewis ond gwneud hynny ar ôl edrych dros ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn.

Fel y bydd y rhan fwyaf o'r gymuned wedi sylweddoli erbyn hyn, ar ôl sawl blwyddyn o gwynion, mae'r wal gynnal, ar yr A493, wedi'i chwblhau o'r diwedd. Gobeithio y bydd yn gwneud y ffordd nid yn unig yn fwy diogel ond ni fydd yn cymryd mor hir ar ol cael gwared ar y goleuadau traffig ar y safle.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn y broses o ddisodli ein meinciau pren sy'n heneiddio, gyda meinciau plastig wedi'u hailgylchu, gyda dau wedi'u harchebu hyd yn hyn, gyda'r bwriad o ddisodli'r holl feinciau pren yn y pen draw er mwyn arbed cost cynnal a chadw bob blwyddyn. G


Gobeithio y bydd y diffibrilwyr newydd yn cael eu gosod o fewn y misoedd nesaf ym mhob pen i'r pentref nawr bod arian wedi'i godi.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Jane y Clerc am ei holl waith caled wrth redeg y Cyngor Cymuned o ddydd i ddydd, ac i Glenda am helpu ac am gyfieithu.

***David Griffiths - Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangelynnin***

***Dyddiad: 01.05.25***

# 1. Llangelynnin
# Ein Ardal ag Adroddiad Blynyddol ein Cyngor Cymuned




LLANGELYNNIN

Ardal Cyngor Cymuned Llangelynnin

Mae Llangelynnin o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin boblogaeth o 562 ar y Gofrestr o Etholwyr (Mai 2022), gyda Ward Cymuned Llangelynnin yn cynnwys ardal

Rhoslefain a Llwyngwril.

## Adroddiad Blynyddol y Cyngor Cymuned – 2024/25

Ym mis Chwefror 2021 hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod dyletswydd newydd wedi'w chyflwyno, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru), fod cynghorau cymuned i gynhyrchu adroddiad blynyddol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ar ôl 1af o Ebrill 2022, ac yn flynyddol wedi hynny.

Nid oes templed ar gyfer adroddiad blynyddol cynghorau cymuned, gan y disgwylir i fformat a lefel y manylder adlewyrchu maint a gweithgareddau'r cynghorau. Fodd bynnag, pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Cyngor Cymuned fanylu ar eu trefniadau llywodraethu ac ariannol, i adrodd a dangos y gwaith a wnaed i ddelio gydag unrhyw bryderon lleol a gwella'r ardal leol dros y flwyddyn.

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol i Cyngor Cymuned Llangelynnin wneud, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

# 2. Cynghorwyr ag Is-Bwyllgorau


Mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin ddeg aelod etholedig sy'n cynnal deg cyfarfod ffurfiol y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfodydd ar ail ddydd Mercher y mis ac eithrio Ionawr ac Awst, pan nad oes cyfarfodydd.

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd bob blwyddyn yn y Cyfarfod Blynyddol ym Mis Mai. Mae Cynghorwyr Cymuned yn cael eu hethol bob pum mlynedd. Bydd yr etholiad nesaf yn 2027.

Mae'r Cynghorwyr presennol yn aelodau o'r Cyngor Cymuned hyd Mai 2022. Gwahoddir Cynghorydd Sir y Ward i fynychu pob cyfarfod.

## 2.1 Ein Cynghorwyr yn 2024/25

Yn ystod y flwyddyn 2024/25 roedd yr aelodau etholedig yn cynnwys – mwy o fanylion - tudalen 12.




- **Cynghorydd Sirol (Llangelynnin)** - Mrs Louise Hughes Tel: 01654 711 051
  louisehughes1962@yahoo.com

- **Clerc y Cyngor Cymuned – Jane Jenkins -** clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk

## 2.2 Cyfarfodydd yn 2024/25

Yn 2021/22, cynhaliwyd un-ar-ddeg o gyfarfodydd ffurfiol ar y dyddiadau a ganlyn:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill – 10.04.24 | Mai – 15.05.24 (AGM) | Mehefin – 12.06.24 | Gorffennaf - 17.07.24 |
| Awst – dim cyfarfod | Medi – 25.09.24 | Hydref – 09.10.24 | Tachwedd – 13.11.24 |
| Rhagfyr – 11.12.24 | Ionawr – dim cyfarfod | Chwefror – 12.02.25 | Mawrth – 12.03.25 |

'Roedd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd i gyd ar gael – wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau mewnol ac allanol Y Ganolfan, ac ar wefan Cyngor Cymuned Llangelynnin.

## 2.3 Is-Bwyllgorau

Ni chynhaliwyd unrhyw is-bwyllgorau yn ystod 2024/25.
Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal cysylltiadau ag ychydig o grwpiau gan gynnwys:
• Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned - Llwyngwril / Fairbourne / Friog / Arthog.
• Pwyllgor y Ganolfan

## 3. Manylion Cysylltu a Gwybodaeth

**Prif gyswllt y Cyngor Cymuned yw:**

Clerc – Mrs Jane Jenkins
2 Tal y Bont
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1UA

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk

Gwefan – https://www.cyngorllangelynnincouncil.co.uk

Arddangosir cofnodion y cyfarfodydd ar yr hysbysfyrddau allanol a mewnol yn Y Ganolfan ac ar wefan Cyngor Cymuned Llangelynnin.

Arddangosir dyddiadau'r cyfarfodydd ar yr hysbysfwrdd mewnol ac allanol yn Y Ganolfan ac ar yr hysbysfwrdd yn Rhoslefain, ac hefyd ar wefan Cyngor Cymuned Llangelynnin.

## 4. Llywodraethu a Chydymffurfiaeth

Mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin nifer o bolisïau i gefnogi llywodraethu'r Cyngor sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. Gellir gweld y polisiau yma ar wefan y Cyngor Cymuned.

Côd Ymddygiad i Aelodau

Rheolau Sefydlog

Rheoliadau Ariannol

Polisi Amgylcheddol

Polisi Rhoddion

GDPR – Diogelu Data

Cofrestr Asedau

Cofrestr Asesu Risg


Polisi Hyfforddi

Polisi Iaith

Polisi COVID


## 5. Ein Cyllid a sut mae'r Praesept blynyddol yn cael ei wario

**5.1 Incwm** - Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd yn 2024/25 oedd **£15,506.66.**




**5.2Gwariant** – Yn 2024/25 - cyfanswm y gwariant oedd **£14,538.93.**

Mae costau gweinyddu a rhedeg y Cyngor Cymuned yn rhan o'r gwariant uchaf yn y flwyddyn ac yn cynnwys yswiriannau, taliadau archwilio, cyflog a chosta'r clerc, trwyddedau ac aelodaeth i Un Llais Cymru a SARPA. Mae'r ail faes gwariant mwyaf yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw ac mae hyn yn cynnwys torri gwair y Côf Golofn, llwybrau cyhoeddus, a'r cae chwarae, ailosod meinciau, cynnal a chadw diffibrilwyr a chyfraniad o **£2,000.00** i Gyngor Gwynedd i gadw'r toiledau cyhoeddus ar agor drwy gydol misoedd yr hâf yn Llwyngwril.



## 5.3 Rhoddion a Grantiau – 2024/25

Gwnaeth Cyngor Cymuned Llangelynnin sawl rhodd ariannol yn 2024/25 - gwerth cyfanswm o **£1,900** i helpu gefnogi gwasanaethau a sefydliadau pwysig yn lleol.

**Rhoddion 2024/25**

Y Ganolfan, Llwyngwril = **£1,000**

Mynwentydd Plwyf Llangelynnin = **£500**

Ambiwlans Awyr Cymru = **£250**

SSAFA = **£50**

Urdd Gobaith Cymru = **£50**

Swyddfa NFU (Ffermwyr Ifanc) = **£50.00**

## 5.4 Archwiliad a Chydymffurfiaeth

### Archwiliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25

Fel Cyngor Cymuned bach, mae sawl gweithred ariannol mae'n ofynnol eu cwblhau drwy gydol y flwyddyn. Yn 2024/25 roedd y gweithredoedd archwilio yn cynnwys paratoi'r gyllideb, derbyn yr Hysbysiad Archwilio, cau a chydbwyso'r llyfr arian parod ar gyfer y flwyddyn, cwblhau'r ffurflen flynyddol, trefnu archwiliad mewnol a phan fydd wedi'i gwblhau a'i lofnodi, trefnu'r archwiliad allanol. Cynhelir yr archwiliad mewnol gan Swyddfa Archwilwyr Cyngor Gwynedd a chynhelir yr archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Archwiliad sylfaenol yw archwiliad 2024/25.

Bydd yr "hysbysiad o hawliau etholwyr" yn cael ei arddangos ar yr hysbysfyrddau cyhoeddus ac ar ein gwefan.

Mae cadarnhad ysgrifenedig fod Archwiliadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 wedi'u derbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 6. Gweithgareddau yn 2024/25 i helpu wella ein hardal.

Roedd y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Cyngor Cymuned yn 2021/22 yn eang ac amrywiol ac yn cynnwys: -

- Parhau â'r bartneriaeth â Chyngor Gwynedd, a'r cyfraniad a wnaed, ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn Llwyngwril.
- Parhau i gysylltu â'r Adran Hawliau Tramwy ynghylch mynediad i'r traeth.
- Adrodd i Barc Cenedlaethol Eryri ar amodau cynllunio lleol
- Adrodd am "Japanese Knotweed"
- Adrodd am lwybrau cyhoeddus wedi'u blocio
- Adolygu/derbyn rhaglenni gwaith Priffyrdd Gwynedd.
- Cysylltu â Grŵp Cyswllt Arfordir Cambria ynghylch materion yn ymwneud â wal ffin a rhwystrau Network Rail a Chyngor Gwynedd ar y ffordd ger y Friog.
- Adrodd i Network Rail a lobïo am atgyweiriadau i'r rhwystr damwain rhwng Llwyngwril a Friog. Cwrdd â chynrychiolwyr ar y safle i drafod y gwaith.
- Adrodd am bryderon diogelwch gyda pharcio ger y cae chwarae
- Trefnu archwiliad ROSPA i'r cae chwarae
- Adrodd am goed a chwyn sydd wedi gordyfu, problemau draenio, difrod i wal ffin, adnewyddu marciau ffordd i Gyngor Gwynedd
- Gwaith cynnal a chadw i'r Côf Golofn
- Ymweliad safle gyda Chyngor Gwynedd ynghylch parcio rhwystrol ar y briffordd yn Llwyngwril
- Ymdrin â choed sydd wedi gordyfu a chwyn ar lwybrau cyhoeddus
- Ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a'u hadolygu yn ôl y gofyn
- Mynychu Sul y Cofio i gynrychioli'r gymuned leol
- Trefnu darpariaeth Coed Nadolig yn Llwyngwril a Rhoslefain
- Clirio malurion o Draeth Llwyngwril
- Cysylltu â Chyngor Gwynedd ynghylch cau ffyrdd ac adrodd ar faterion rheoli traffig
- Darparu cyfleuster mynediad o bell i alluogi cynnal cyfarfodydd trwy Teams/Zoom
- Cynorthwyo'r hen Grŵp Amgylcheddol Llwyngwril trwy ymgymryd â'r dasg o gael gwared o Japanese Knotweed o'r pentref, gan weithio ochr yn ochr â'r unig aelod sydd ar ol o'r grwp gwreiddiol
- Cysylltu â'r Grŵp Ymatebwyr Cyntaf lleol i gynnal a chadw yr holl Ddiffibrilwyr yn lleol

## 7. Wedi eu gyflawni yn 2024/25

**DATBLYGIAD LLEOL**

• Ymateb i geisiadau cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

• Ymateb i hysbysiadau cynllunio gan Gynllunio Cyngor Gwynedd.

• Ymateb i faterion trwyddedu gan Gyngor Gwynedd.

**FFYRDD A PHRIFFYRDD**

• Cysylltu â Chyngor Gwynedd, yr Adran Briffyrdd, a Heddlu Gogledd Cymru ar faterion priffyrdd sy'n ymwneud â pharcio a gwaith ffordd rhwng Llwyngwril a Friog.

**DIOGELWCH**

• Parhau i gysylltu â Network Rail a Chyngor Gwynedd i helpu gyda blaenoriaethu cynlluniau adnewyddu rhwystrau diogelwch.

• Archwiliad ROSPA wedi'i gynnal yn y cae chwarae.

• Archwiliad Dŵr Cymru a gwaith arfaethedig ar Afon Gwril a phibell garthffosiaeth.

• Cysylltu â Chyngor Gwynedd ynghylch erydiad y traeth a gwaith atgyweirio.

**CYNRYCHIOLIO ANGHENION Y GYMUNED**

• Ymweliadau safle gyda sefydliadau gan gynnwys Priffyrdd Gwynedd/Network Rail/ROSPA/Dŵr Cymru.

**CYDYMFFURFIAD ARIANNOL**

• Archwiliad llwyddiannus wedi'i gyflawni ar gyfer 2023/24 gydag Archwiliad Cymru.

**RHEOLI ARIANNOL**

• Cynnydd bach yn y praesept lleol ar gyfer 2024/25.

• Cofrestr asedau wedi'i diweddaru, cofrestr asesu risg at ddibenion yswiriant.

**LLYWODRAETH DDA**

• Diweddaru ac adolygu rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol, côd ymddygiad i aelodau, polisi rhoddion, polisi amgylcheddol, cofrestr asedau, a chofrestr asesu risg.

**CYNRYCHIOLAETH GYMUNEDOL**

• Cynrychioli ardal Llangelynnin yng Ngwasanaeth Eglwys Sul y Cofio.

• Cynrychiolaeth ar bwyllgorau a digwyddiadau lleol (Y Ganolfan).

**CYNORTHWYO Â CHYNHALIAETH**

• Cynnal a chadw offer a matiau’r cae chwarae a'u diweddaru lle bo angen.

**CYNRYCHIOLAETH**

• Cyrhaeddodd tua 70% o gyfarfodydd y Cyngor bresenoldeb o 100%.

# Cynghorwyr a Etholwyd ym Mis Mai 2022

# Cyngor Cymuned Llnagelynnin

**Mr Ian R Williams**
Coed y Gweddill
Llwyngwril
LL37 2QJ

**Mr Huw Davies**
Cae'r Felin
Llwyngwril
LL37 2JY

**Mr Geraint Edwards**
Elfan
Llwyngwril
LL37 2JJ

**Mr Keith Carroll**
Morannedd
Ffordd Celynnin
Llwyngwril
LL37 2JD

**Nicola Roberts**
17 Godre'r Gaer
Llwyngwril
LL37 2JZ (ymddiswyddodd Rhagfyr 2024)

**Jenny Warne**
Y Padog
Ffordd y Coleg
Llwyngwril
LL37 2UZ

**Mrs Jane Lawrence**
Bron Danw
Llwyngwril
LL37 2JQ

**Mr Geraint Micah**
Min-y-Don
Rhoslefain
Tywyn
LL36 9ND

**Mr David Griffiths**
30 Godre'r Gaer
Llwyngwril
LL37 2JZ

**Megan Griffiths**
(Cyfetholwyd Tachwedd 23)
Ty Rhosyn,
Ffordd yr Orsaf
Llwyngwril
LL37 2JS